# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

**RHAN 5**

GORFODI SAFONAU

**PENNOD 1**

YMCHWILIO I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Â SAFONAU ETC

*Adroddiadau ar ymchwiliadau*

**74 Adroddiadau ar ymchwiliadau**

(1) Yn y Mesur hwn, ystyr "adroddiad ar ymchwiliad" yw adroddiad ar ymchwiliad o dan adran 71 sy'n cynnwys pob un o'r canlynol—

(a) cylch gorchwyl yr ymchwiliad;

(b) crynodeb o'r dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad;

(c) canfyddiadau'r Comisiynydd ar yr ymchwiliad;

(d) dyfarniad y Comisiynydd ar a yw D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol ai peidio;

(e) datganiad ar a yw'r Comisiynydd am weithredu ymhellach;

(f) os yw'r Comisiynydd am weithredu ymhellach, datganiad ar y gweithredu hwnnw.

(2) Nid yw is-adran (1) yn atal y Comisiynydd rhag cynnwys materion eraill mewn adroddiad ar ymchwiliad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 74 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 74 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 74.